# PECYN CYMORTH DesYIgn

**Awduron:** Arielle Tye, ProMo-Cymru ar y cyd â chonsortiwm DesYIgn
**Dylunydd Graffeg:** Auguste Poskaite, ProMo-Cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn o ganlyniad i'r prosiect "DesYIgn", a ariennir gan Raglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd.

**Asiantaeth Gwybodaeth a Chwnsela Ieuenctid Ewropeaidd** (Lwcsembwrg)

**Gwaith Ieuenctid Iwerddon** (Iwerddon)

**Koordinaatti** (Y Ffindir)

**Agence Nationale pour l'information des Jeunes** (Lwcsembwrg)

**Dirección General de Juventud. Comunidad de Madrid**

**ProMo-Cymru** (Cymru, DU)

**Aġenzija Żgħażagħ** (Malta)

**Institut Valencià de la Joventut** (Sbaen)

**Åbo Akademi University** (Y Ffindir)

Gwnaed y cyhoeddiad hwn gyda chymorth rhaglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd. Nid yw cefnogaeth y Comisiwn Ewropeaidd o ran y cyhoeddiad hwn yn cynrychioli ac yn cefnogi ei gynnwys, sy'n adlewyrchu barn yr awduron yn unig, a does dim modd i unrhyw un fod yn gyfrifol am unrhyw ddibenion a wneir o'r wybodaeth yn y ddogfen.

# TABL CYNNWYS


Cyflwyniad .......... 4

Y Broses DesYlgn .......... 6

Y Cam Darganfod .......... 7

- Disgrifiad o’r cam a rhestr offer
- Awgrymiadau cynllunio
- Astudiaeth Achos: Cam 1

Y Cam Diffinio .......... 12

- Disgrifiad o’r cam a rhestr offer
- Awgrymiadau Cynllunio
- Astudiaeth Achos: Cam 2

Y Cam Datblygu .......... 16

- Disgrifiad o’r cam a rhestr offer
- Awgrymiadau Cynllunio
- Astudiaeth Achos: Cam 3

Y Cam MYND AMDANI .......... 21

- Disgrifiad o’r cam a rhestr offer
- Awgrymiadau Cynllunio
- Astudiaeth Achos: Cam 4

Rhan Adnoddau .......... 23

Cyfeiriadau ac Adnoddau Pellach .......... 36

# CYFLWYNIAD

## Beth yw'r Pecyn Cymorth DesYIgn?

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnig gwybodaeth ac adnoddau ymarferol i gefnogi gweithwyr ieuenctid a gweithwyr gwybodaeth ieuenctid i gynllunio gwasanaethau gyda phobl ifanc. Mae'n gyflwyniad i Gynllunio Gwasanaeth.

Ei nod yw gweithio ochr yn ochr â Chwrs Ar-lein DesYign, ac mae wedi'i greu gan bartneriaeth o ymarferwyr ieuenctid o bob rhan o Ewrop. Mae'r holl ddeunyddiau yn y pecyn cymorth hwn wedi cael eu profi mewn lleoliadau gwaith ieuenctid.

Bydd yr adnoddau hyn yn cyflwyno gweithwyr ieuenctid i'r fethodoleg hon, gyda'r nod o'u cefnogi nhw i esblygu'n barhaus a gwella'r gwasanaethau gwybodaeth ieuenctid yn unol ag ymddygiad ceisio gwybodaeth pobl ifanc, sy'n newid yn barhaus.

## Beth yw'r Fethodoleg Cynllunio Gwasanaeth?

Mae'r fethodoleg Cynllunio Gwasanaeth neu Ystyried Cynllunio yn ddull arfer gorau i gynllunio gwasanaethau digidol.

Caiff ei ddefnyddio'n helaeth ledled y byd gan gwmnïau technoleg, ac mae'n cael ei ddefnyddio fwyfwy gan Lywodraethau a Sefydliadau Anllywodraethol fel proses ar gyfer cynllunio gwasanaethau a chynnyrch, sy'n bodloni anghenion dinasyddion yn well.

"Mae'n broses sy'n dechrau gyda'r bobl rydych chi'n cynllunio ar eu cyfer, ac yn gorffen gyda datrysiadau newydd wedi'u teilwra i fod yn addas i'w anghenion." (IDEO.org, cyrchwyd 2019)

Mae'r egwyddor ganolog yn ymwneud â sicrhau bod anghenion pobl yn graidd. Mae hyn yn gweddu'n benodol dda i waith ieuenctid, sef ymrwymiad cyson i fodloni anghenion pobl ifanc.

Mae'r fethodoleg yn gweithio er mwyn cynllunio datrysiadau digidol, a rhai nad ydynt yn ddigidol.

# Pam defnyddio Cynllunio Gwasanaeth mewn gwaith gwybodaeth ieuenctid?

Mae'r broses Cynllunio Gwasanaeth yn adnodd pwerus y gellid ei ddefnyddio i gefnogi gweithwyr ieuenctid i arloesi gwasanaethau newydd neu gynnyrch, neu ail-feddwl a chryfhau gwasanaethau presennol.

Mae datblygiadau cyson mewn technoleg newydd a newidiadau i'r ffyrdd y mae pobl ifanc yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio gyda'r byd o'u cwmpas yn golygu bod gwasanaethau mewn risg yn gyson o fod yn hen ffasiwn, o ddod yn amherthnasol, yn anhygyrch, neu ddim yn ddefnyddiol mwyach. Yn ogystal â hyn, mae datrysiadau technoleg yn aml yn cael eu datblygu neu eu mabwysiadu mewn ffordd aneffeithiol, sy'n golygu bod adnoddau gwerthfawr yn cael eu gwastraffu ar ddatblygu pethau nad ydynt yn addas at y diben.

Bydd defnyddio'r dull hwn yn eich helpu i adeiladu ar lwyddiannau yn y gorffennol, a sicrhau bod gwasanaethau'n parhau'n gynaliadwy yn y dyfodol drwy gynnwys pobl ifanc a rhanddeiliaid mewn modd gweithredol yn ystod pob cam o ddatblygu gwasanaeth, a'i ychwanegu at eich sgiliau proffesiynol.

Mae'r dull yma'n effeithiol iawn o ran grymuso pobl ifanc, oherwydd maen nhw'n caffael sgiliau a gwybodaeth newydd drwy gydol y broses a hefyd yn cyfrannu at y broses benderfynu.

Bydd yn helpu i sicrhau bod eich gwaith gwybodaeth ieuenctid yn bodloni egwyddorion Siarter Gwybodaeth Ieuenctid Ewropeaidd, yn enwedig 4.1 a 9.1.

4.1 Mae gwasanaethau gwybodaeth ieuenctid yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc
9.1 Mae gwasanaethau gwybodaeth ieuenctid yn arloesol o ran eu dewis o strategaethau, dulliau, ac adnoddau i ymgysylltu â phobl ifanc.

# Sut ydw i'n defnyddio'r Pecyn Cymorth hwn?

Dyluniwyd y pecyn cymorth hwn i gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r Cwrs Hyfforddiant Ar-lein DesYIgn a'r Adroddiad Grŵp Ffocws DesYIgn.

Os ydych chi'n ddibrofiad o ran Cynllunio Gwasanaeth, argymhellir eich bod chi'n cwblhau'r cwrs hwn i sicrhau dealltwriaeth fanylach o'r gweithgareddau, y theori a'r cysyniadau.

Fodd bynnag, os ydych chi eisoes yn defnyddio Cynllunio Gwasanaeth yn eich gwaith, bydd y Pecyn Cymorth hwn yn gallu cynnig adnoddau sydd wedi hen ennill eu plwyf.

## Diffiniad
Gwybodaeth Ieuenctid a Chwnsela

Mae gwasanaethau gwybodaeth ieuenctid a chwnsela'n cynnwys amrywiaeth helaeth o ddulliau gwahanol a thechnegau a gellid ei darparu drwy sawl gwasanaeth gwahanol, yn amrywio o wlad i wlad. Beth sy'n bwysig yw bod yr unigolyn sy'n rhannu'r wybodaeth yn meddu'r sgiliau a'r cymwyseddau penodol, ac yn parchu cod ymddygiad er mwyn darparu gwybodaeth o safon. Gellid defnyddio Siarter Gwybodaeth Ieuenctid Ewropeaidd fel côd o'r fath, a dyna'r egwyddorion a'r canllawiau proffesiynol y dylid cyfeirio atynt ar gyfer gwaith gwybodaeth ieuenctid a chwnsela ledled Ewrop.

# Y BROSES DesYIGN




## 1 DARGANFOD

Fel mae'r enw'n awgrymu, yn ystod y cam hwn byddwch yn dod yn 'dditectif'. Byddwch yn gwneud darn o waith ymchwil gyda'r nod o ddeall yn llwyr yr anghenion, yr ymddygiad a phrofiadau'r bobl ifanc rydych yn cynllunio ar eu cyfer. Byddwch yn ymgolli'n llwyr ym mywydau'r bobl ifanc. Siaradwch â nhw, arsylwch, gwrandewch, dysgwch a chyfunwch hyn gydag astudio bwrdd gwaith.

## 2 DIFFINIO

Yn ystod y cam hwn, byddwch yn treulio amser yn dadansoddi ac yn edrych yn fanwl ar y wybodaeth, y data, a'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu er mwyn penderfynu beth sydd fwyaf pwysig i ganolbwyntio arno.

## 3 DATBLYGU

Nawr mae hi'n amser datblygu a phrofi datrysiadau posibl! Yn ystod y cam hwn, byddwch yn creu prototeipiau (neu fân beilotau), datblygu deilliannau a dangosyddion, a byddwch yn eu profi nhw gyda phobl ifanc. Byddwch yn casglu data ac yn dysgu beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio.

## 4 MYND AMDANI

Yn ystod y cam hwn, byddwch yn lansio eich gwasanaeth, platfform neu gynnyrch newydd neu well. Ond nid dyna'i diwedd hi. Byddwch yn parhau i wella ac addasu eich cynnyrch a'ch gwasanaeth ar sail adborth ac effeithiolrwydd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni anghenion pobl ifanc

# DARGANFOD

Y camau darganfod a diffinio yw'r rhai pwysicaf yn y broses cynllunio, a byddant yn cymryd llawer o amser. Yn ystod y cam darganfod, eich nod yw deall y broblem yn fanwl, gweld y byd drwy lygaid pobl ifanc a chael at wraidd yr heriau a'r rhwystrau go iawn y maent yn eu hwynebu.

Meddyliwch amdano fel darn o ymchwil. Y ffocws yw dysgu cymaint ag sy'n bosibl am anghenion, ymddygiad, profiadau a heriau pobl ifanc cyn creu datrysiadau. Mae hyn yn cynnwys dysgu o beth sydd eisoes yn bodoli, a dysgu am y cyd-destun ehangach.

Byddwch yn defnyddio cyfuniad o ddulliau megis cyfweliadau personol, grwpiau ffocws a chynnwys pobl ifanc fel partneriaid i greu personas ieuenctid gyda'r nod o ddatblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'u hanghenion.

Y nod yw gweithio gyda grŵp amrywiol o bobl ifanc i sicrhau eich bod yn deall yr her o safbwyntiau amrywiol.

# ADNODDAU A DULLIAU

## I'W DEFNYDDDIO GYDA'R CAM HWN

- YMCHWIL BWRDD GWAITH
- CYFWELIADAU A GRWPIAU FFOCWS GYDA PHOBL IFANC (a rhanddeiliaid perthnasol eraill)
- PERSONAS IEUENCTID
- CREU BWRDD STORI
- MAPIO TAITH Y DEFNYDDIWR
- HOLIADURON

# YMCHWIL

## I'W DDEFNYDDIO GYDA'R CAM HWN

**ADRODDIAD CYFWELIAD GRŴP FFOCWS DESYIGN**

**ASTUDIAETH I ANGHENION AC YMDDYGIAD CEISIO GWYBODAETH POBL IFANC (MAE DOLEN I'R ADRODDIAD I'W WELD AR DUDALEN 24).**

## AWGRYMIADAU AR GYFER Y CAM DARGANFOD:

**1** OFYNNWCH Y CWESTIYNAU CYWIR

**NID DYSGU AM FARNAU UNIGOL, NEU OFYN I BOBL IFANC I DDOD I GASGLIADAU YW PWRPAS CYFWELIADAU A GRWPIAU FFOCWS. MAENT YN YMWNEUD Â DEALL YR HER O'U SAFBWYNT NHW.**

Er enghraifft, os ydych chi'n ceisio dysgu rhagor am yr heriau y mae person ifanc yn eu hwynebu mewn sefyllfa benodol, efallai y byddwch yn gofyn:

- **Sut beth yw diwrnod arferol i chi?**
- **Beth yw'r peth pwysicaf sydd angen i chi ei wneud mewn diwrnod?**
- **Beth sy'n eich herio fwyaf yn eich bywyd ar hyn o bryd?**

Yn hytrach na gofyn am ddatrysiadau yn uniongyrchol, gallwch gael synnwyr o unrhyw syniadau sydd gan y person ifanc drwy ofyn cwestiynau ynghylch beth sydd wedi gweithio a heb weithio yn y gorffennol, er enghraifft:

- **Pa help da ydych chi wedi'i gael yn y gorffennol ynghylch eich cymorth gyda'ch iechyd meddwl?**
- **Beth oedd yn dda amdano?**
- **Sut ddysgoch chi am yr help yma?**
- **Sut cawsoch chi afael arno?**
- **Allwch chi feddwl am sefyllfa lle nad oeddech chi'n gallu dod o hyd i'r help oedd ei angen arnoch?**
- **Os cawsoch chi brofiad gwael gyda gwasanaeth, beth oedd yn wael amdano?**

## 2 DEFNYDDIWCH DDULLIAU SY'N EICH HELPU I ARSYLWI SUT MAE POBL IFANC YN YMDDWYN

**MAE BETH MAE POBL YN EI DDWEUD A GWNEUD YN DDAU BETH GWAHANOL.**

Gan gadw hyn mewn cof, mae hi'n bwysig eich bod yn dewis dulliau sy'n eich helpu i arsylwi a deall sut mae pobl ifanc yn ymddwyn mewn bywyd go iawn. Gall byrddau straeon fod yn adnodd defnyddiol i arsylwi'r camau y bydd pobl ifanc yn eu cymryd mewn sefyllfa benodol.

Er enghraifft, gallwch ofyn i bobl ifanc fapio'r camau y byddant yn eu cymryd pan fyddan nhw'n poeni bod rhywbeth o'i le

***"Rydych chi'n poeni fod gennych glefyd a drosglwyddwyd yn rhywiol. Beth ydych chi'n gwneud nesaf?"***

## 3 DEFNYDDIWCH YR ADRODDIAD GRŴP FFOCWS DESYIGN
(Astudiaeth ar anghenion ac ymddygiad ceisio gwybodaeth pobl ifanc)

**MAE'R ADRODDIAD GRŴP FFOCWS YN DDARN ALLWEDDOL O YMCHWIL SYDD AR GAEL I CHI EI DDEFNYDDIO YN RHAN O'R CAM DARGANFOD. CAFODD EI GYNNAL GAN BRIFYSGOL ABO AKADEMI YN BENODOL I'W DDEFNYDDIO OCHR YN OCHR Â'R PECYN CYMORTH HWN.**

Yn 2019, cynhaliwyd wyth o gyfweliadau grŵp ffocws mewn pedair gwlad wahanol, sef: y DU (Cymru), Sbaen (Valencia a Madrid), Malta a Lwcsembwrg. Cyfrannodd cyfanswm o 37 o bobl ifanc, rhwng 15 a 29 oed gydag oed cyfartalog o 19 at y drafodaeth fanwl, lle gwnaethant fanylu ar eu harferion ceisio gwybodaeth bob dydd, eu lefel o ymwybyddiaeth o wasanaethau, eu heriau o ran cael gafael ar wasanaethau, a sut y byddai'n well ganddynt ddefnyddio gwasanaethau gwybodaeth.

Ewch i'r rhan adnoddau i gael dolen i'r adroddiad a chanllawiau pellach ar sut i ddefnyddio'r grwpiau ffocws, y cyfweliadau a'r byrddau straeon yn ystod y cam darganfod.

# CYNLLUNIO GWASANAETH AR WAITH:

DATBLYGU ADNODD IECHYD MEDDWL I BOBL IFANC

Er mwyn arddangos sut mae cynllunio gwasanaeth yn gweithio, rydym wedi creu'r astudiaeth achos hon yn edrych ar bedwar cam cynllunio gwasanaeth mewn prosiect bywyd go iawn. Gweithiodd ProMo-Cymru mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu adnodd iechyd rhywiol digidol newydd i bobl ifanc.

## Astudiaeth Achos: CAM 1

Mae llawer o bobl ifanc yn ei chael hi'n anodd trafod iechyd rhywiol. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru a ProMo-Cymru eisiau i wybodaeth iechyd rhywiol ar-lein fod yn fwy hygyrch a phriodol i bobl ifanc. Cydweithiodd y sefydliadau er mwyn mynd i'r afael â'r her cynllunio hon.

Cam cyntaf yr her oedd cael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r wybodaeth oedd ar gael ar hyn y bryd, pa mor rhwydd y gall pobl ifanc ddod o hyd i'r wybodaeth hon, a pha mor hygyrch ydoedd. Roedd tri cham i hyn - siarad gyda phobl ifanc, siarad gyda gweithwyr proffesiynol ac ymchwil bwrdd gwaith.

### SIARAD GYDA PHOBL IFANC:

Sefydlwyd grwpiau ffocws oedd yn cynnwys ystod amrywiol o bobl ifanc; roedd y rhain yn cynnwys pobl ifanc â nam ar y golwg a phobl ifanc byddar.

Dyma rai o'r cwestiynau a ofynnwyd:

- **Pan fydd angen gwybodaeth arnoch ynghylch eich iechyd rhywiol, i ble fyddwch chi'n mynd a beth ydych chi'n ei wneud?**
- **Yw hi'n hawdd neu'n heriol dod o hyd i'r wybodaeth? Eglurwch pam.**
- **Pa wybodaeth sydd wedi bod y mwyaf/lleiaf defnyddiol i chi?**

Ar ôl ymchwilio anghenion gwybodaeth y bobl ifanc yn fanwl, roedd y tîm cynllunio'n awyddus i arsylwi sut fyddai pobl ifanc yn ymddwyn mewn sefyllfa benodol. Rhoddwyd bwrdd stori iddynt a'r senario canlynol:

> **'Cawsoch chi (neu ffrind) ryw anniogel nos Sadwrn. Yn yr ysgol yr wythnos wedyn, rydych chi'n clywed sïon fod gan y person y gwnaethoch chi gysgu gydag ef/hi Chlamydia. Beth yw'ch camau nesaf?'**

Trafododd aelodau'r grŵp ffocws ymysg ei gilydd a defnyddio eu ffonau i chwilio am wefannau, gan wneud nodyn o bob cam gweithredu, beth wnaethon nhw chwilio amdano a'r gwefannau. Nodwyd y wybodaeth a beth fyddai'r camau nesaf.

## SIARAD GYDA GWEITHWYR PROFFESIYNOL

Bu i'r tîm cynllunio drafod hefyd gyda gweithwyr iechyd proffesiynol yn gweithio yn y clinigau iechyd rhywiol. Roeddent yn gallu cynnig safbwynt unigryw ar y cyngor a'r wybodaeth fwyaf cyffredin yr oedd pobl ifanc yn chwilio amdani wrth ddod i'r clinigau.

## YMCHWIL BWRDD GWAITH

Rhan olaf y cam darganfod oedd gwneud gwaith ymchwil bwrdd gwaith ar yr arferion gorau ynghylch gwybodaeth iechyd rhywiol i bobl ifanc, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol hefyd. Y nod oedd casglu cymaint o wybodaeth â phosibl.

*Yn parhau ar dudalen 14.*





# DIFFINIO

Rydych wedi bod yn casglu llawer o wybodaeth a nawr mae hi'n amser gwneud synnwyr ohoni. Mae'n debyg eich bod wedi casglu llawer iawn o wybodaeth, ac mae'r cam hwn yn ymwneud â rhoi trefn ar y wybodaeth i themâu a mewnwelediadau clir. Rydych chi'n chwilio am y pethau sy'n sefyll allan, ac sy'n teimlo'n berthnasol. Bydd y mewnwelediadau hyn yn llywio eich datrysiadau.

**BETH SY'N SEFYLL ALLAN? BETH SYDD BWYSICAF I BOBL IFANC?**

Yn hanfodol, byddwch yn defnyddio'r cam hwn i bennu'n glir cyfeiriad eich prosiect cynllunio. Yn ystod y cam nesaf, byddwch yn dod o hyd i ddatrysiadau i'ch her, felly mae'n hynod bwysig eich bod chi'n treulio amser yn sicrhau eich bod wedi cael i wraidd y problemau go iawn.

Deilliant y cam diffinio yw deall yn union eich her o safbwynt y defnyddwyr targed, a chael cyfres o fewnwelediadau clir a fydd yn llywio sail y datrysiadau cynllunio ac ysbrydoli.

Mae'r camau darganfod a diffinio'n gysylltiedig â'i gilydd ac yn trawstorri. Peidiwch â phoeni gormod os ydyn nhw'n troi'n un cam. Canolbwyntiwch ar ystyried yr her o safbwynt y person ifanc, a dysgu beth sydd bwysicaf.

# ADNODDAU A DULLIAU
## I'W DEFNYDDIO GYDA'R CAM HWN

- BEIRO, PAPUR A NODIADAU POST IT
- THEMÂU, MEWNWELEDIADAU A DATGANIADAU SUT GALLWN NI
- DATGANIADAU ANGHENION DEFNYDDWYR
- PERSONAS
- DATGANIADAU TAITH Y DEFNYDDIWR

## AWGRYMIADAU AR GYFER Y CAM DIFFINIO:

### 1 DECHREUWCH DRWY YSTYRIED YR HER O SAFBWYNT Y PERSON IFANC.

**MAE CYNLLUNIO GWASANAETH YN DDULL SY'N CANOLBWYNTIO AR Y DEFNYDDIWR. ADNODD DEFNYDDIOL I'CH HELPU I WNEUD HYN YW CREU DATGANIAD O ANGHENION DEFNYDDWYR. MAE HYN YN DDATGANIAD A FYDD YN EICH HELPU I YSTYRIED YR HER O SAFBWYNT Y DEFNYDDIWR**

**Er enghraifft, edrychwch ar y broblem hon:**

Mae gofalwyr ifanc mewn ysgol leol yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r amser a'r lle i wneud eu gwaith cartref.

**Nawr, os ydych chi'n ail-eirio'r datganiad i gyfleu safbwynt person ifanc, mae'r datganiad fel a ganlyn:**

> "Fel person ifanc sy'n gofalu am fy Mam, pan fo angen i mi wneud fy ngwaith cartref, mae angen man tawel ac amser penodol arnaf fel bod modd i mi gyflawni'r gwaith hyd eithaf fy ngallu.

Beth sy'n dda am y datganiad yma yw ei fod yn hynod benodol, ac nid yw'n cyflwyno unrhyw ddatrysiadau. Mae'n canolbwyntio ar anghenion y person ifanc. Gelwir hyn yn ddatganiad anghenion y defnyddiwr.

Yn aml, gall creu datrysiad cyn deall yr her yn llawn ein temtio.

**Dyma enghraifft wael o ddatganiad anghenion y defnyddiwr:**

> **Fel person ifanc sy'n gofalu am fy Mam, pan fydd angen i mi wneud fy ngwaith cartref, mae angen clwb gwaith cartref ar ôl ysgol arnaf fel bod modd i mi gwblhau'r gwaith cartref hyd eithaf fy ngallu.**

Y broblem gyda'r datganiad yma yw bod y datrysiad eisoes wedi'i bennu.

Fodd bynnag, os yw'r datganiad yn canolbwyntio ar yr anghenion, mae'n caniatáu i ystod o ddatrysiadau posibl gael eu harchwilio.

# Astudiaeth Achos: CAM 2

*Darllenwch ran 1 o'r astudiaeth achos yma ar dudalen 10.*

**GAN GASGLU'R HOLL WYBODAETH A'R MEWNWELEDIADAU O'R CAM DARGANFOD, EDRYCHODD Y TÎM CYNLLUNIO DRWY BOPETH I ROI TREFN AR BETHAU, A DEWIS RHAI PRIF THEMÂU I WEITHIO ARNYNT. DAETH TAIR HER GRAIDD I'R AMLWG O WNEUD HYN:**

- Nid oedd gwybodaeth ddigidol swyddogol presennol ar iechyd rhywiol wedi'i gyflwyno mewn ffordd yr oedd pobl ifanc yn gallu ei phrosesu a'i gweithredu'n gywir. Roedd canlyniadau'r ymarfer bwrdd stori'n dangos bod **pob un person ifanc wedi camddehongli'r wybodaeth ar-lein swyddogol ac wedi mynd i'r clinig ar yr amser anghywir.**[1] Roedd hyn yn ganfyddiad sylweddol ac annisgwyl iawn.

- Nid oedd gwybodaeth Iechyd Rhywiol ar gael yn gyson i bobl ifanc gyda nam ar y golwg. Roedd manylion ar gyfer mynd i rai clinigau wedi'u cyflwyno mewn ffordd nad oedd yn ddarllenadwy i beiriannau, megis dogfennau PDF a darluniau o fapiad wedi'u sganio. Mynegodd y bobl ifanc gyda nam ar y golwg flaenoriaeth glir i'r wybodaeth fod ar gael ar ffurf fideo hygyrch. Roedd y canfyddiad hwn yn groes i dybiaeth flaenorol na fyddai fideo'n briodol i'r grŵp defnyddwyr hwn.

- Roedd y wybodaeth yn llawn testun heb lawer o fideo neu ddulliau eraill i wneud cysyniadau'n rhwyddach i'w deall.



**Defnyddiodd y tîm y mewnwelediadau uchod i greu datganiad o anghenion defnyddwyr:**

> **Fel person ifanc, pan fyddaf yn ceisio cymorth o ran fy iechyd rhywiol, mae angen i mi allu dod o hyd i wybodaeth berthnasol a hygyrch yn rhwydd, sy'n benodol i'm hamgylchiadau ac sy'n fy ngalluogi i wneud dewisiadau call.**

Cafodd datganiadau **'Sut gallwn ni'** eu creu o'r wybodaeth a gasglwyd, oedd yn edrych ar sut i wella'r wybodaeth i bobl ifanc. Byddai'r datganiadau hyn yn pennu cyfeiriad yr her cynllunio.

- **Sut gallwn ni sicrhau bod pobl ifanc yn gallu deall a phrosesu'n briodol gwybodaeth ar-lein ar iechyd rhywiol?**
- **Sut gallwn ni sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn hygyrch i bobl ifanc sydd â nam ar y golwg?**
- **Sut gallwn ni wneud cysyniadau'n rhwyddach i'w deall?**
- **Sut gallwn ni osgoi camddealltwriaeth drwy sicrhau bod y person ifanc yn cael y wybodaeth gywir sy'n berthnasol iddyn nhw?**

*Yn parhau ar dudalen 19.*



[1] 14 diwrnod yw cyfnod heintus Chlamydia. Mae'n dweud hyn ar wefan y GIG, ond ni lwyddodd yr un person ifanc ddehongli hyn i feddwl bod angen disgwyl 14 diwrnod cyn mynychu'r clinig.

# DATBLYGU

Yn ystod y cam hwn, byddwch yn datblygu syniadau a datrysiadau prawf. Byddwch yn creu ystod o syniadau, yn trafod a dadlau manteision ac anfanteision bob un ac yn penderfynu ar y rhai gorau i'w peilota. Y nod yw bod yn greadigol a chreu syniadau na fyddwch wedi'u hystyried o'r blaen o bosibl. Unwaith y byddwch wedi sefydlu eich syniadau, byddwch yn adeiladu prototeipiau ac yn dechrau eu profi nhw gyda phobl ifanc a chasglu adborth.

Y nod yw creu ffordd rad a bychan iawn o brofi eich syniad neu gyfres o syniadau. Gellid cyfeirio at hyn fel lleiafswm gwasanaeth hyfyw.

**BETH YW'R LLEIAFSWM Y GALLWCH CHI EI WNEUD I BROFI EICH SYNIAD?**

Byddwch yn casglu data a gwybodaeth o'ch treialon, yn dysgu o'ch camgymeriadau ac yn iteru eich syniadau. Mae iteru'n broses o roi mân newidiadau ar waith ac yna ailadrodd y treial. Wrth Gynllunio Gwasanaeth, byddwch yn mynd drwy sawl iteriad wrth i chi nesáu at y datrysiad. Mae dysgu o'r hyn sydd ddim yn gweithio yn bwysig hefyd, yn yr un modd â dysgu o'r hyn sydd yn gweithio.

# ADNODDAU A DULLIAU

## I'W DEFNYDDIO GYDA'R CAM HWN

- BEIRO, PAPUR A NODIADAU POST IT
- WYTH CHWIM
- MAPIO TAITH Y DEFNYDDIWR
- PROTOTEIPIO
- ADNODDAU DIGIDOL RHAD NEU AM DDIM

## AWGRYMIADAU AR GYFER Y CAM DATBLYGU:

### 1 DEFNYDDIO DULLIAU CREADIGOL I GREU SYNIADAU

Syniadaeth yw'r broses o greu syniadau, ac mae llawer o ffyrdd gwahanol o gynnal sesiynau syniadaeth. Y nod yw bod yn greadigol ac edrych y tu hwnt i'r datrysiadau amlwg. Ffordd dda o annog ystod o syniadau yw chwarae Wyth Chwim. Mae pawb yn cael y dasg o greu wyth syniad mewn chwe munud.

Wrth ddatblygu eich syniadau ymhellach, efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi eu darlunio a defnyddio techneg o'r enw prototeipio papur. Defnyddir prototeipio papur yn helaeth fel ffordd o ddelweddu a phrofi sut bydd datrysiad yn edrych ac yn gweithio yn ystod camau cynnar datblygu.

## 2 DECHRAU'N FYCHAN A PHROFI

**EGWYDDOR GRAIDD CYNLLUNIO GWASANAETH YW DECHRAU'N FYCHAN. Y NOD YW CREU FFORDD SYML O BROFI EICH SYNIAD I WELD OS YW'N GWEITHIO.**

Er enghraifft, dychmygwch mai'r her yw annog pobl ifanc i ddod i ddigwyddiadau yn eich clwb ieuenctid. Yn ystod eich cam darganfod, rydych yn dysgu er gwaethaf y ffaith eich bod yn rhannu llawer ar y cyfryngau cymdeithasol, mae llawer o bobl ifanc yn dweud eu bod nhw'n colli'r digwyddiadau oherwydd dydyn nhw ddim yn gwybod amdanynt. Rydych yn cael gwybod hefyd bod y nifer helaeth o bobl ifanc sy'n dod i'ch clwb ieuenctid yn defnyddio ffonau symudol, ac yn fodlon i chi gyfathrebu ar ffurf neges destun â nhw. Cyn buddsoddi mewn gwasanaeth negeseuon testun neu ymgyrch marchnata mawr, prawf syml fyddai treulio wythnos yn anfon negeseuon testun at bobl ifanc yn eu hatgoffa am y digwyddiadau yn y clwb ieuenctid. Cadwch olwg ar niferoedd y bobl ifanc sy'n dod o gymharu ag wythnos pan na anfonoch chi negeseuon testun. Os yw'r niferoedd wedi cynyddu, byddwch chi'n gwybod bod eich syniad yn gweithio.

## 3 PROTOTEIPIWCH GAN DDEFNYDDIO ADNODDAU RHAD NEU AM DDIM AR-LEIN

**Mae ystod eang o adnoddau y gallwch eu defnyddio i adeiladu prototeipiau. Gallwch adeiladu gwefannau a chronfeydd data enghreifftiol ar Notion, gallwch greu grwpiau a fforymau ar-lein ar Facebook a Google Groups, gallwch greu CRM ar Airtable, gallwch anfon negeseuon testun at bobl ifanc gan ddefnyddio Twilio... does dim diwedd i'r hyn y gallwch ei wneud.**

---

Cwestiwn da i ofyn ar hyn o bryd yw:

"Oes eisoes datrysiad ar gyfer hyn?"

Yn lle ail-greu'r olwyn, efallai bod eisoes datrysiad cudd y gallwch ei ddefnyddio er mwyn profi eich syniad.

Mae llawer o enghreifftiau o sefydliadau'n profi gwasanaeth newydd gan ddefnyddio adnodd ar-lein rhad, cyn dysgu bod yr adnodd rhad mor llwyddiannus nad oes angen iddynt adeiladu eu platfform dynodedig ei hun. Mae'n ddrud ac yn peri llawer o risg i adeiladu platfform digidol newydd.

Mae rhestr o adnoddau digidol rhad yn y rhan adnoddau.

# Astudiaeth Achos:

# CAM 3

*Darllenwch ran 2 o'r astudiaeth achos yma ar dudalen 14.*

## SESIWN SYNIADAETH

Gwnaeth y tîm cynllunio ymgysylltu gyda grŵp o bobl ifanc a chynnal sesiwn syniadaeth gan ddefnyddio'r ymarfer Wyth Chwim. Cafodd y bobl ifanc y datganiadau 'Sut gallwn ni' a 6 munud fesul datganiad i feddwl am gymaint o syniadau â phosibl ar gyfer bob un.

Trafododd y tîm cynllunio'r manteision a'r anfanteision o bob syniad, gan drafod pa un oedd yn debygol o gael yr effaith fwyaf, a pha rai oedd yn bosibl ac yn realistig o fewn amser a therfynau cyllidebol y prosiect. Gwnaethant leihau'r rhestr, a dewis dau i greu prototeipiau.


Yr un cyntaf oedd creu adnodd iechyd digidol sy'n gofyn cyfres o gwestiynau ac sy'n cyfeirio pobl ifanc at yr union wybodaeth sydd ei hangen. Yr ail yw creu cronfa o fideos astudiaeth achos i rannu gwybodaeth mewn ffordd hygyrch sy'n addas i bobl ifanc. Byddai'r ddau brototeip yn gysylltiedig gan y gallai'r adnoddau gysylltu â fideos astudiaethau achos yn dibynnu ar anghenion y person ifanc.

## Y DDAMCANIAETH

**ADNODD IECHYD DIGIDOL:**
Credwn y bydd creu adnodd lle bydd pobl ifanc yn cael eu cyfeirio at wybodaeth bwrpasol yn benodol i'w hanghenion yn eu galluogi nhw i brosesu'r wybodaeth a gwneud dewisiadau call yn briodol


**FIDEOS ASTUDIAETH ACHOS:**
Credwn y bydd darparu cronfa o fideos astudiaeth achos o bynciau'n gwneud y cysyniadau'n rhwyddach i'w ddeall. Bydd hyn yn fwy hygyrch i bobl ifanc (gan gynnwys pobl ifanc sydd â nam ar y golwg)

**CAFODD Y PROTOTEIPIAU PAPUR EU DEFNYDDIO I DDECHRAU I ARDDANGOS TAITH Y PERSON IFANC DRWY'R GWASANAETH CYSYNIAD NEWYDD. GWNAED HYN DRWY DDEFNYDDIO NODIADAU POST IT AR BAPUR BROWN.**




Cafodd y daith hon, ochr yn ochr ag enghreifftiau o fyrddau straeon a fideos, ei phrofi gyda phobl ifanc a'i haddasu ar sail yr adborth.

Yna, cafodd prototeip ei adeiladu gan ddefnyddio adnoddau digidol rhad. Gan ddefnyddio Typeform roedden nhw'n gallu creu'r arolwg rhesymeg iechyd rhywiol a'i brofi gyda'r bobl ifanc a'r gweithwyr iechyd proffesiynol.




Cafodd fideo prototeip ei greu gan ddefnyddio VideoScribe.
Gallwch ei gwylio ar y ddolen ganlynol: https://www.youtube.com/watch?v=ajgewMTXe4A

*Yn parhau ar dudalen 22.*




# MYND AMDANI

I symud ymlaen i'r cam hwn, bydd angen i chi fod wedi cael deilliannau llwyddiannus o'r cam Datblygu.

Yn ystod MYND AMDANI, byddwch yn gweithredu a lansio'ch datrysiad yn llwyr. Bydd yn cynnwys uwchraddio eich syniad, a'i symud y tu hwnt o'r prototeip i'r cam cyflawni.

Er mwyn i hyn ddigwydd, bydd angen i chi ddyrannu adnoddau a phennu gweithdrefn ar gyfer monitro a gwerthuso.

Mae'r cam MYND AMDANI yn broses barhaus.

Byddwch yn dysgu, datblygu a gwneud addasiadau'n barhaus i'ch prosiect gan sicrhau ei bod yn parhau i fodloni anghenion pobl ifanc.

# Astudiaeth Achos: CAM 4

*Darllenwch ran 3 o'r astudiaeth achos yma ar dudalen 19.*

Cafodd yr adnodd ei lansio a'i gynnal ar wefan CymruChwareus, y wefan iechyd rhywiol i bobl ifanc gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Er mwyn rhoi gwybodaeth i bobl ifanc mewn fformat hygyrch, cafodd cronfa o animeiddiadau ei chomisiynu i weithredu ochr yn ochr â'r adnodd.

Mae'r prosiect wedi dod i ben, ond yn dilyn lansiad y prototeip, cafwyd argymhellion pellach i ddatblygu'r adnodd i fodloni anghenion pobl ifanc. Mae hyn yn arddangos yr angen i wella,

**Argymhellion ar gyfer y dyfodol:**

- Y gallu i drefnu apwyntiadau mewn clinigau yn uniongyrchol drwy'r adnodd
- Derbyn negeseuon atgoffa am apwyntiadau
- Monitro a chasglu dadansoddeg ar sut mae pobl ifanc yn dod o hyd i'r adnodd ac yn ei ddefnyddio
- Marchnata effeithiol drwy farchnata ar-lein a geiriau Google Ad i gynyddu defnyddioldeb a chynaliadwyedd

Nid oedd rhai o'r nodweddion na'r swyddogaethau hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau'r prosiect a'r seilwaith digidol presennol mewn gwasanaethau iechyd rhywiol yng Nghymru.



















# RHAN ADNODDAU

# ASTUDIAETH I ANGHENION AC YMDDYGIAD GWYBODAETH POBL IFANC

Cynhaliwyd gwaith ymchwil ar anghenion ac ymddygiad gwybodaeth pobl ifanc gan ERYICA, y consortiwm prosiect DesYIgn a Phrifysgol Abo Akademi yn 2019. Gellid defnyddio'r wybodaeth o'r astudiaeth hon i wella dyluniad y gwasanaeth a gweithgareddau cyfathrebu gwybodaeth ieuenctid a gwasanaethau cwnsela, gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y defnyddwyr ac yn arloesol.

Cynhaliwyd wyth o gyfweliadau grwpiau ffocws mewn pedair gwlad gwahanol, sef: y DU (Cymru), Sbaen (Valencia a Madrid), Malta a Lwcsembwrg. Cyfrannodd cyfanswm o 37 o bobl ifanc, rhwng 15 a 29 oed gydag oed cyfartalog o 19 at y drafodaeth fanwl, lle gwnaethant fanylu ar eu harferion ceisio gwybodaeth bob dydd, eu lefel o ymwybyddiaeth o wasanaethau, eu heriau o ran cael gafael ar wasanaethau, a sut y byddai'n well ganddynt ddefnyddio gwasanaethau gwybodaeth.

**Mae'n adnodd hanfodol sy'n rhoi mewnwelediad da, y gellid cyfeirio ato yn rhan o'r cam Darganfod.**

**Gallwch gael gafael arno yma:** https://static1.squarespace.com/static/59ab1130ff7c50083fc9736c/t/5e6f80fd7f317b25bef3e59f/1584365830423/brochure_v8_ISBN.pdf

# AWGRYMIADAU AR GYNNAL GRWPIAU FFOCWS A CHYFWELIADAU:

- Dylech weithio fel tîm i greu cyfres o gwestiynau a fydd yn eich helpu i ddeall yn well anghenion y bobl ifanc a sut maen nhw'n ymddwyn.
- Penderfynwch pwy yw'r bobl orau i siarad gyda nhw. Pwy fydd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen? Siaradwch gyda defnyddwyr presennol eich gwasanaeth, ond siaradwch hefyd gyda phobl ifanc yr hoffech ymgysylltu â nhw yn y dyfodol.
- Ceisiwch osgoi ofyn cwestiynau ynghylch beth mae'r bobl ifanc eisiau.

  ✗ *Sut hoffech chi dderbyn gwybodaeth iechyd rhywiol?*

  ✓ *Pan fyddech chi angen gwybodaeth iechyd rhywiol, i ble ydych chi'n mynd, a beth ydych chi'n gwneud?*

- Gofynnwch gwestiynau agored nad ydynt yn arwain.
- Gwrandewch gyda chwilfrydedd, a holwch yn fanylach os nad ydych yn cael y wybodaeth sydd ei hangen o'r ymatebion cychwynnol.
- Osgowch arwain cyfranogwyr drwy roi cliwiau ar lafar neu fel arall i'r hyn nad ydych yn ei hoffi neu yn ei hoffi.
- Ystyriwch sut i wneud grwpiau ffocws yn gyffrous gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a ffyrdd gwahanol o roi adborth i'r bobl ifanc. Ceisiwch ddefnyddio adnoddau digidol megis Kahoot neu Mentimeter. Ceisiwch glywed gan bawb yn y grŵp.
- Defnyddiwch gyfuniad o grwpiau ffocws a chyfweliadau. Bydd y cyfweliadau'n rhoi cyfle i chi holi'n fanylach.
- Cofiwch wybod pryd i stopio. Mae'n ymwneud ag ansawdd y wybodaeth a'r mewnwelediadau rydych chi'n eu cael yn hytrach na nifer y bobl rydych chi'n siarad gyda nhw.

# CWESTIYNAU CYFWELIAD A GRŴP FFOCWS ENGHREIFFTIOL

- Pan fyddwch chi angen gwybodaeth am weithgareddau chwaraeon lleol, beth ydych chi'n ei wneud? Sut ydych chi'n cael y wybodaeth?
- Meddyliwch am adeg pan roedd angen help neu wybodaeth arnoch am eich iechyd meddwl. Trafodwch y camau a roddwyd ar waith gennych i gael yr help.
- Oedd hi'n hawdd neu'n heriol dod o hyd i'r wybodaeth, a pham?
- Beth oedd yn dda am eich profiad?
- Beth oedd ddim yn dda am eich profiad?
- Sut ddysgoch chi am eich gwasanaeth gwybodaeth ieuenctid lleol?
- Beth wnaeth eich cymell i ddefnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf?
- Beth wnaeth eich cymell i ddal i ddychwelyd/parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth?
- Beth sy'n dda am y gwasanaeth gwybodaeth ieuenctid?
- Beth sydd ddim cystal?
- Sut ydych chi'n dod o hyd i wybodaeth ynghylch beth sy'n digwydd yn eich canolfan ieuenctid leol? Ydych chi'n teimlo fod gennych wybodaeth dda am y gweithgareddau a'r gwasanaethau (neu ydych chi'n aml yn teimlo'n ansicr ynghylch beth sy'n digwydd a beth sydd ar gael i chi)?
- Pa blatfformau ar-lein ydych chi'n eu defnyddio, ac ar gyfer beth ydych chi'n eu defnyddio?
- Pa blatfformau ydych chi'n credu sy'n addas ar gyfer cyfathrebu gyda gweithiwr ieuenctid? (Zoom, WhatsApp, Facebook, Instagram, arall)

# AWGRYMIADAU AR GYNNAL HOLIADURON

- Pa wybodaeth ydych chi'n ceisio ei chasglu? Ydych chi'n chwilio am ddata rhifol, mesuradwy, neu ydych chi'n ceisio cael disgrifiadau manwl er mwyn helpu i lywio'r data ansoddol?
- Cadwch y cwestiynau mor fyr a chryno ag sy'n bosibl. Dylech ond ofyn cwestiynau sy'n berthnasol i'r data rydych eisiau ei gasglu.
- Sicrhewch fod y cwestiynau'n sylfaenol. Rhaid iddynt fod yn rhwydd i'w ddeall i unrhyw un sy'n ateb yr holiadur.
- Ceisiwch gynnwys rhesymeg a threfn. Mae hyn yn golygu bod y drefn yn dilyn trefn sy'n symud o gwestiynau cyffredinol i rai penodol.
- Ystyriwch pa mor hir yw'r cwestiwn. Pa mor hir mae'n ei gymryd i'w ateb? Ceisiwch ei gadw mor fyr ag sy'n bosibl. Ffordd dda o wneud hyn yw defnyddio cwestiynau amlddewis lle bo'n bosibl.
- Osgowch gwestiynau arweiniol.
- Ceisiwch gynnwys cysondeb yn yr holiadur. Er enghraifft, dylai unrhyw gwestiynau sydd angen cael eu sgorio fod yr un peth.
  1 - 10 (1 yw'r isaf bob amser a 10 yw'r uchaf bob amser)
- Cyn anfon eich holiadur, dangoswch e i ychydig o bobl. Oedd e'n hawdd ei ddeall? Oedd e'n rhy hir?

Unwaith yr ydych wedi cwblhau'r camau hyn, gallwch anfon eich holiadur. Sicrhewch eich bod yn anfon yr holiadur i'r gynulleidfa darged bwriedig er mwyn cael canlyniadau dibynadwy y gellid ymddiried ynddynt.

**Esiampl:**

---

Ar raddfa 1 – 10 (1 y gwaethaf a 10 y gorau) sut oedd y gwasanaeth heddiw?

(1) (2) (3) (4) (5) (6) (7) (8) (9) (10)

Os oes gennych chi unrhyw gwynion am ein gwasanaeth, nodwch hynny isod.

# PERSONAS IEUENCTID

Mae personas yn seiliedig ar bobl ifanc go iawn, a'r nod yw cynrychioli grŵp o bobl ifanc mewn cymdeithas. Maen nhw'n canolbwyntio ar anghenion a rhinweddau perthnasol y prif ddefnyddwyr targed. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwch yn creu persona ar gyfer person ifanc gyda chyfrifoldebau gofalu a fydd yn effeithio'n sylweddol ar ei argaeledd. Mae hi hefyd yn bwysig ystyried diwylliant, amgylchiadau cymdeithasol-economaidd, hunaniaeth ethnig, rhywedd ac anabledd.

Mae hwn yn weithgaredd gwych i'w wneud gyda phobl ifanc. Gofynnwch i'r bobl ifanc i greu personas gwahanol ar sail eu ffrindiau a'u cymunedau. Defnyddiwch hynny fel cyfle i gael trafodaeth ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Enw: _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

Oedran: _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

Hunaniaeth rhywedd: _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

Amgylchiadau Gwaith/Addysg/Bywyd presennol: _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

Rhinweddau perthnasol:

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

Disgrifiwch eu bywyd bob dydd:

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

Anghenion a blaenoriaethau:
(Beth maen nhw ei angen gan y gwasanaeth? Beth yw eu blaenoriaethau?)


_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _


# MAPIO TAITH Y DEFNYDDIWR

**Gellid defnyddio mapio taith y defnyddiwr yn y camau darganfod a diffinio, a'r cam datblygu.**

Os caiff ei ddefnyddio yn y camau cynllunio cynnar, defnyddir y map taith i ddangos y daith bresennol i ddefnyddwyr. Yn y camau hwyrach, caiff ei ddefnyddio i ddangos y llwybr delfrydol i ddefnyddwyr drwy eich gwasanaeth newydd neu well.
Gweithiwch gyda phobl ifanc i fapio eu teithiau presennol drwy eich gwasanaeth neu greu taith ar sail y data rydych wedi'i gasglu yn y cam darganfod. **Er enghraifft:**




Unwaith y byddwch yn y cam datblygu, mapiwch sut fydd y gwasanaeth delfrydol yn edrych:



# CREU DATGANIADAU O ANGHENION DEFNYDDWYR

Gallwch greu datganiadau o anghenion defnyddwyr ar ddechrau eich prosiect. Mae'r datganiadau hyn yn nodi cyfeiriad eich her. Efallai y bydd angen i chi wneud ychydig o waith ymchwil cychwynnol cyn y byddwch yn barod i ddechrau creu datganiad o anghenion defnyddwyr.

## ENGHRAIFFT O DDATGANIAD ANGHENION DEFNYDDWYR:

***"Fel person ifanc sy'n gofalu am fy Mam, pan fo angen i mi wneud fy ngwaith cartref, mae angen man tawel ac amser penodol arnaf fel bod modd i mi gyflawni'r gwaith hyd eithaf fy ngallu."***

## SUT I GREU EICH DATGANIAD ANGHENION DEFNYDDWYR:

Gofynnwch i bob aelod o'ch tîm i roi cynnig ar ysgrifennu datganiad gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

Fel _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ [person ifanc y mae'r broblem yn effeithio arno]

Pan fyddaf _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ [y sefyllfa pan fydd y broblem yn digwydd]

Mae angen _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

Fel bod _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ [y deilliant sydd ei angen]

## ENGHRAIFFT DDA:

*"Fel person ifanc sy'n gofalu am fy Mam, pam fyddaf angen gwneud fy ngwaith cartref, mae angen man tawel ac amser penodol arnaf fel bod modd i mi wneud fy ngwaith cartref hyd eithaf fy ngallu."*

Beth sy'n dda am y datganiad hwn yw ei fod yn hynod benodol, ac nid yw'n cyflwyno unrhyw ddatrysiadau. Mae'n canolbwyntio ar anghenion y person ifanc.

## ENGHRAIFFT WAEL:

*"Fel person ifanc sy'n gofalu am fy Mam, pan fyddaf angen gwneud fy ngwaith cartref, mae angen clwb gwaith cartref ar ôl ysgol arnaf fel bod modd i mi wneud fy ngwaith cartref hyd eithaf fy ngallu."*

Y broblem gyda'r datganiad hwn yw bod y datrysiad eisoes wedi cael ei bennu.

*Diolch i CAST, y Ganolfan Technoleg Gymdeithasol Uwch am yr ymarfer hwn.*

# BWRDD STORI


Gellid defnyddio'r templed hwn i ofyn i berson ifanc ddarlunio'r camau yr hoffai ei gymryd mewn sefyllfa benodol. Gallwch hefyd ddefnyddio bwrdd stori i ddrafftio cynnwys fideo.

# WYTH CHWIM

Mae wyth chwim yn ffordd gyflym o greu ystod o syniadau ac mae'n weithgaredd hwyliog i wneud gyda phobl ifanc. Y nod yw annog creadigrwydd drwy edrych y tu hwnt i'r datrysiadau amlwg.

**Y cwbl sydd ei angen yw darnau A3 neu A4 o bapur a beiros.**

**1** Gofynnwch i bawb blygu'r papur yn ei hanner, ac eto.



**2** Agorwch y darn o bapur a dylech fod ag wyth bocs yr un maint.

**3** Trefnwch amserydd byr am chwe munud, a gofynnwch i bawb ddarlunio wyth

**4** Unwaith y mae pawb wedi gorffen, gofynnwch am adborth ar eu syniadau gorau, a chynhaliwch drafodaeth ar y syniadau mwyaf addawol.

# THEMÂU, MEWNWELEDIADAU A DATGANIADAU SUT GALLWN NI

Ni fydd bob aelod o'r tîm wedi mynychu pob cyfweliad gyda defnyddwyr, ond mae'n bwysig iawn fod pawb yn deall y dysgu allweddol o'r ymchwil gyda defnyddwyr. Ffordd dda o wneud hyn yw trefnu nifer o weithdai gwneud synnwyr. Mae'n well cynnal y rhain wrth fynd, tra bod yr ymchwil defnyddwyr yn dal i fod yn ffres.

Bydd arnoch angen beiros, nodiadau post-it a man gwag ar y wal neu fwrdd gwyn digidol

**1** Dewch â'r tîm cyfan at ei gilydd a phenodi hwylusydd

**2** Gofynnwch i bawb sydd wedi bod ynghlwm wrth yr ymchwil defnyddwyr i gyfeirio at y data a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu gyda gweddill y grŵp. Gyda phwy wnaethon nhw gwrdd, beth ddysgon nhw, beth oedd y prif fewnwelediadau? Nodwch y pwyntiau hyn ar y nodiadau post-it

**3** Unwaith y mae pawb wedi cael cyfle i roi adborth, gallwch ddechrau trefnu'r nodiadau post-it i themâu. Ystyriwch pa themâu sy'n ailadrodd? Pa wybodaeth sy'n sefyll allan fel rhywbeth sylweddol a pherthnasol i'ch her cynllunio?

## DATGANIADAU SUT GALLWN NI:

Unwaith y bydd gennych grynodeb o'r prif themâu a mewnwelediadau, gallwch alw'r rhain yn 'Ddatganiadau Sut Gallwn Ni' (SGN).

**Er enghraifft:**

**1** Nododd llawer o famau ifanc deimladau unigedd.

### SGN:

**Sut gallwn ni helpu mamau ifanc i deimlo'n llai unig?**

**2** Roedd mamau ifanc wir yn gwerthfawrogi'r cyfle i siarad gyda mamau ifanc eraill a rhannu profiadau

### SGN:

**Sut gallwn ni greu cyfleoedd i famau ifanc rwydweithio a chysylltu gyda'i gilydd mewn ffordd ddiogel a hygyrch?**

Bydd gennych oddeutu 5-8 Datganiad SGN o bosibl. Defnyddir y datganiadau hyn yn ystod Datblygu er mwyn pennu datrysiadau.

# PROTOTEIPIO

Defnyddir prototeipio i wireddu eich syniadau. Mae'r dull hwn yn helpu i wneud eich syniadau'n fwy cyffyrddadwy fel bod modd eu profi gyda phobl ifanc. Bydd yn nodi manteision ac anfanteision eich dyluniad.

## CAM 1:
PROTOEIPIO ISEL

Dylai eich prototeipiau cychwynnol fod yn isel, gan olygu bras. Gellid eu darlunio ar ddarn o bapur i greu ffug ddyluniadau. Er enghraifft, er mwyn profi fideo, gallech ddefnyddio bwrdd stori a sgript i ddangos cynnwys y fideo. Ar gyfer ap, gallwch ddarlunio pob sgrÎn o'r ap a'r daith ddefnyddwyr drwy'r ap.

Yna, gallwch brofi'r prototeipiau isel gyda phobl ifanc, a diwygio'r dyluniadau ar sail yr adborth.

## CAM 2:
CREU PROTOTEIP 'UWCH'

Y cam nesaf yw creu prototeip manylach. Gellid creu'r rhain drwy ddefnyddio adnoddau digidol rhad. Gallwch adeiladu gwefannau a chronfeydd data enghreifftiol ar Notion, gallwch greu grwpiau a fforymau ar-lein ar Facebook a Google Groups, a gallwch anfon negeseuon testun at bobl ifanc gan ddefnyddio Twilio, does dim diwedd i'r posibiliadau!

Sicrhewch eich bod yn tynnu lluniau o bob iteriad cysyniad fel bod modd nodi'r syniadau llwyddiannus yn nes ymlaen



# ADNODDAU DIGIDOL COST ISEL NEU AM DDIM

Mae ystod eang o adnoddau digidol y gellid eu defnyddio i ddarparu eich prosiect cynllunio gwasanaeth gyda phobl ifanc.

**Dyma rai rydyn ni'n eu hargymell:**

## GOOGLE JAMBOARD

Bwrdd gwyn digidol. Gellid ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau ffocws a gweithdai.

## TWILIO

Galluogi chi i anfon a derbyn negeseuon testun megis negeseuon atgoffa am apwyntiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.

## TYPEFORM

Creu ffurflenni cyffrous a rhyngweithiol ac arolygon rhesymeg.

## SLACK

Sefydlu cymuned ar-lein, cael trafodaethau a sgyrsiau.

## VIDEOASK (gan typeform):

Galluogi chi i gael trafodaethau ar ffurf fideo. Gellid ei ddefnyddio fel ffordd arloesol i ymgysylltu gyda phobl ifanc a rhannu gwybodaeth.

## CANVA

Creu cynnwys cyffrous ar gyfer negeseuon y cyfryngau cymdeithasol neu bosteri neu daflenni.

## NOTION

Mae Notion yn adnodd amrywiol iawn. Gellid ei ddefnyddio fel cronfa ddata, gwefan, a gellid ei ddefnyddio er mwyn rheoli prosiect. Mae fersiynau am ddim i rai nid er elw.

## LOOM

Creu fideos egluro yn rhwydd. Gyda Loom, gallwch recordio eich camera, eich microffon a'ch bwrdd gwaith ar yr un pryd.

Gallwch ddod o hyd i adnodd neu declyn digidol sy'n addas i chi yn y Catalog Elusennau: https://charitycatalogue.com/

# CYFEIRIADAU AC ADNODDAU PELLACH



# CYFEIRIADAU

**Ysbrydolwyd y pecyn cymorth yma gan:**

Fframwaith arloesiad y Cyngor Dylunio (y diemwnt dwbl):
https://www.designcouncil.org.uk/news-opinion/what-framework-innovation-design-councils-evolved-double-diamond

Hops Dylunio CAST:
https://www.wearecast.org.uk/programmes/design-hops

Pecyn Cynllunio IDEO:
https://www.designkit.org/

Pecyn Cynllunio Gwasanaeth:
https://servicedesigntoolkit.org/

# ADNODDAU PELLACH

Catalog Elusennau:
https://charitycatalogue.com/

Adnoddau a ryseitiau gweithio'n ddigidol The Catalyst:
https://www.thecatalyst.org.uk/resources#